OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 254 (Cy. 67)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2021

| | |
|---|---|
| *Made - - - -* | *4 Mawrth 2021* |
| *Laid before Senedd Cymru* | *8 Mawrth 2021* |
| *Coming into force - -* | *29 Mawrth 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 59, 60(1), 61(1) a 333(4B) a (7) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2021 a daw i rym ar 29 Mawrth 2021.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995

**2.** Mae Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995(**3**) wedi ei diwygio yn unol ag erthyglau 3 a 4.

### Diwygio Rhan 3A o Atodlen 2 (adeiladu dros dro a newid defnydd at ddibenion argyfwng iechyd y cyhoedd)

**3.**—(1) Mae Rhan 3A (Dosbarth A) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ddiwedd paragraff A.2(b), hepgorer "and".

(**1**) 1990 p. 8. Mewnosodwyd adran 59(4) gan adran 55 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 (dccc 4), a pharagraff 5 o Atodlen 7 iddi. Mae diwygiadau eraill i Ddeddf 1990 nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 59, 60(1), 61(1) a (333)(4B) a (7), i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddo: gweler y cofnod yn Atodlen 1 ar gyfer Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 fel y'i hamnewidiwyd gan erthygl 4 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000 (O.S. 2000/253), ac Atodlen 3 iddo. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi, trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru.

(**3**) O.S. 1995/418. Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.

(3) Yn lle paragraff A.2(c) rhodder—

"(c) on or before the expiry date—

(i) any use of that building or land for the purpose of Class A must cease;

(ii) any building, moveable structure, works, plant or machinery permitted by Class A must be removed; and

(iii) the building or land must be restored to its condition before the development took place, or to such other state as may be agreed in writing between the local planning authority and the developer; and".

(4) Ar ôl paragraff A.2(c) mewnosoder—

"(d) in sub-paragraph (c), "the expiry date" means—

(i) for developments which begin before 10 April 2021 the date eighteen months after the date on which the development began; and

(ii) for developments which begin on or after 10 April 2021 the date twelve months after the date on which the development began."

**Diwygio Rhan 12A o Atodlen 2 (datblygu brys gan awdurdodau lleol)**

**4.**—(1) Mae Rhan 12A (Dosbarth A) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ddiwedd paragraff A.1(a), hepgorer "and".

(3) Yn lle paragraff A.1(b) rhodder—

"(b) on or before the expiry date—

(i) any use of that land for a purpose of Class A must cease and any buildings, plant, machinery, structures and erections permitted by Class A must be removed; and

(ii) the land must be restored to its condition before the development took place, or to such other state as may be agreed in writing between the local planning authority and the developer; and".

(4) Ar ôl paragraff A.1(b) mewnosoder—

"(c) in sub-paragraph (b), "the expiry date" means—

(i) for developments which begin before 30 March 2021 the date eighteen months after the date on which the development began; and

(ii) for developments which begin on or after 30 March 2021 the date twelve months after the date on which the development began."

*Julie James*
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

4 Mawrth 2021

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 ("yr GDCG").

Mae erthygl 3 o'r GDCG, ac Atodlen 2 iddo, yn rhoi hawliau datblygu a ganiateir mewn cysylltiad â datblygiadau penodol. Pan roddir yr hawliau hynny, nid yw cais am ganiatâd cynllunio yn ofynnol.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio paragraff A.2(c) o Ran 3A o Atodlen 2 i'r GDCG (adeiladu dros dro a newid defnydd at ddibenion argyfwng iechyd y cyhoedd). Pan fo paragraff A.2(c) yn gymwys, mae'r amserlen ar gyfer symud y datblygiad ymaith wedi ei diwygio fel bod y cyfnod wedi ei estyn o ddeuddeng mis i ddeunaw mis ar gyfer y datblygiadau hynny sy'n dechrau cyn 10 Ebrill 2021. Ar gyfer y datblygiadau hynny sy'n dechrau ar 10 Ebrill 2021 neu ar ôl hynny, mae'r cyfnod yn parhau i fod yn ddeuddeng mis. Ym mhob achos, mae'r amser yn dechrau o'r dyddiad y dechreuodd y datblygu.

Mae erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio paragraff A.1(b) o Ran 12A o Atodlen 2 i'r GDCG (datblygu brys gan awdurdodau lleol). Pan fo paragraff A.1(b) yn gymwys, mae'r amserlen ar gyfer symud y datblygiad ymaith wedi ei diwygio fel bod y cyfnod wedi ei estyn o ddeuddeng mis i ddeunaw mis ar gyfer y datblygiadau hynny sy'n dechrau cyn 30 Mawrth 2021. Ar gyfer y datblygiadau hynny sy'n dechrau ar 30 Mawrth 2021 neu ar ôl hynny, mae'r cyfnod yn parhau i fod yn ddeuddeng mis. Ym mhob achos, mae'r amser yn dechrau o'r dyddiad y dechreuodd y datblygu.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.